

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

### Hanes:

- Y Pla Du
- Tân Mawr Llundain
- Cynllwyn y Powdwr Du

### Daeraryddiaeth

- Cymharu pentref Y Ffôr â dinas Llundain - deall gwahaniaethau.

### Addysg Grefyddol

- Moses a Phla Yr Aifft
- Hindwiaeth: stori Rama a Sita a Diwali - Gwyl y Goleuni.

### Gwyddoniaeth

- Goleuni a Sŵn- gwahanol ffynonellau goleuni a sain
- Newid deuyddiau e.e. siocled a rhew, drwy eu cynhesu.

### Mathemateg

- Dadansoddi rhifau bysus cochion yn gannoedd, degau ac unedau.
- Gwerth Lle - trefnu rhifau bysus cochion o'r lleiaf i'r mwyaf.
- Adnabod siapiau 2D yn adeiladau Llundain ac adeiladu modelau 3D.
- Amser - darllen amserlen trên.

## Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Chwarae rôl - teithio ar y bws neu'r tren dan ddaear yn Llundain.
- Trafod nodweddion Llundain gan ddysgu geirfa newydd a defnyddio'r ferf gryno - "Es i Lundain a gwelais / clywais / cefais / dychrynais ..."
- Darllen - llyfrau gwybodaeth a straeon am Y Pla a'r Tân Mawr.
- Stori Dick Whittington a'i gath - aralleirio'r stori yn eu geiriau eu hunain, actio rhannau o'r stori, llunio stori ddychmygol wedi ei seilio ar y stori gan roi tro yn y gynffon.
- Creu poster yn hysbysu pobl am symptomau'r Pla Du.
- Ysgrifennu ymson plentyn sy'n byw yng nghyfnod y Pla a'r Tân.
- Cyfansoddi cerdd ar y testun 'Tân'.

## Y Stiwartiaid Sglyfaethus

### Personol a Chymdeithasol

- Amser Cylch - datblygu sgiliau gwrando, canolbwyntio, edrych, siarad a meddwl .
- Meddylfryd o Dwf - datblygu gallu'r plant i ddal ati pan fo pethau'n anodd a hybu agwedd bositif tuag at eu gwaith.
- Pobl Sy'n Ein Helpu - dynion tân, meddygon, nyrsys a.y.y.b.

### Creadigol

- Braslunio rhai o aeiladau cyfarwydd Llundain yn fanwl.
- Creu collage o'r Tân Mawr gan dalu sylw i liw.
- Gwaith celf yr Hindwiaid - patrymau Rangoli a Divas.
- Cyfansoddi a pherfformio 'Dawns y Fflamau'.
- Gwerthfawrogi 'Y Pedwar Tymor' gan Vivaldi.
- Dysgu caneuon yn ymwneud â'r thema a chreu cyfeiliant syml.